## GWEITHDREFNAU ARCHWILIO A GORFODAETH

Darparwyd yr arweiniad hwn i sicrhau eich bod yn ymwybodol o bwerau'r archwilydd, ac i esbonio unrhyw gamau gorfodaeth y **gallai** yr Awdurdod Tân (yr Awdurdod) i gywiro unrhyw ddiffygon. Bydd yr archwilydd yn esbonio'r rheswm dros yr archwiliad a'r hyn sy'n ofynnol ichi ei ddarparu yn ystod yr archwiliad.

Fel y person cyfrifol, eich dyletswydd chi yw sicrhau iechyd a diogelwch eich gweithwyr a phobl eraill megis aelodau o'r cyhoedd y gallai'r ffordd yr ydych yn rhedeg eich busnes effeithio arnynt. Pwrpas archwiliad yw samplo sut rydych yn cydymffurfio â'ch gofynion cyfreithiol dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (y Gorchymyn).

### Crynodeb o Bwerau

Mae gan archwilydd sydd wedi ei benodi gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac sydd â gwarant ysgrifenedig, bwerau dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

i) Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
ii) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayyb 1974; Adrannau 19, 20, 21, 23 a 25 o'r Rheoliadau Adeiladu (Iechyd, Diogelwch a Lles) a wnaed dan y Ddeddf uchod.
iii) Rheoliadau a wnaed dan y Deddfau uchod.

Gall archwilydd wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol i ddiben cyflawni'r Gorchymyn, a heb niwed i gyffredinolrwydd y pwerau hyn, bydd ganddo/ganddi y pŵer yn arbennig i wneud y canlynol, ar unrhyw adeg rhesymol-

a) mynd i mewn i unrhyw safle ac i archwilio'r safle cyfan, neu ran ohono, ac unrhyw beth sydd ynddo;
b) gwneud pob ymholiad sydd ei angen er mwyn canfod a gydymffurfiwyd â darpariaethau'r gorchymyn hwn, ac er mwyn adnabod y person cyfrifol mewn perthynas â'r safle;
c) ei gwneud yn ofynnol i ddangos unrhyw gofnodion, ac i wneud copïau o unrhyw nodyn yn y cofnodion, y mae ei hangen dan unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn neu i ddiben edrych arnynt;
d) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi cyfleusterau a chymorth i alluogi'r archwilydd i arfer y pwerau a roddir gan y Gorchymyn;
e) cymryd samplau o unrhyw eitemau neu sylweddau sydd ar y safle i ddiben canfod a ydynt yn gwrthsefyll tân neu'n fflamadwy; ac
f) yn achos unrhyw eitem neu sylwedd, achosi iddo gael ei ddatgymalu neu fynd drwy broses neu brawf.

### GORFODI'R GYFRAITH

Pan fydd yr archwilydd yn canfod bod deddfwriaeth diogelwch tân wedi cael ei thorri, bydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Bydd y camau'n dibynnu ar natur y tramgwydd, ac yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd ym Mholisi Gorfodaeth Cyffredinol yr Awdurdod.

Gallai'r archwilwyr gymryd camau gorfodaeth mewn sawl ffordd i ddelio â'r tramgwydd. Mae'r rheini'n cynnwys:

**CAMAU ANFFURFIOL:**

**Hysbysiad Diffygion Diogelwch Tân**

Lle bo'r Awdurdod o'r farn eich bod wedi methu cydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd arnoch dan y Gorchymyn, ond lle ystyrir nad yw'r tramgwydd yn un sy'n haeddu Hysbysiad Gorfodaeth, bydd yr archwilydd yn rhoi'r hysbysiad uchod ichi. Bydd yr hysbysiad yn nodi'r materion dan sylw, a'r camau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn eu cywiro.

**Nid** Hysbysiad Gorfodaeth yw'r Hysbysiad Diffygion Diogelwch Tân. Mae'n nodi'r diffygion y mae'n rhaid eu trin er mwyn cwrdd â'ch rhwymedigaethau dan y Gorchymyn, ac mae'n cael ei roi gan yr Awdurdod **cyn** cymryd unrhyw gamau gorfodaeth ffurfiol.

Fel y person cyfrifol, **gallech** gael cyfnod o hyd at 28 niwrnod i wneud cynnydd boddhaol o ran cywiro'r diffygion.

**CAMAU FFURFIOL:**

**Hysbysiad Addasiadau**

Lle bo'r Awdurdod yn ystyried bod y safle'n berygl difrifol i bobl, p'un ai oherwydd nodweddion y safle, y defnydd ohono, unrhyw beryglon sydd yno neu unrhyw amgylchiadau eraill; neu fod y safle'n berygl o'r fath os gwneir newid iddo neu'r defnydd a wneir ohono, fe allai roi Hysbysiad Addasiadau ichi.
Lle bo Hysbysiad Addasiadau wedi cael ei roi, rhaid ichi, cyn gwneud:

- newid i'r safle;
- newid i'r gwasanaethau, gosodiadau neu offer yn neu ar y safle;
- cynnydd yn nifer y sylweddau peryglus sydd yn neu ar y safle;
- newid i'r defnydd o'r safle a allai arwain at gynnydd sylweddol yn y risg,

roi gwybod i'r Awdurdod am y newidiadau arfaethedig.

**Hysbysiadau Gorfodaeth**

Lle bo'r Awdurdod o'r farn eich bod, fel person cyfrifol sydd â'r rhwymedigaeth i wneud hynny, wedi methu cydymffurfio â'r gofynion sydd arnoch dan y Gorchymyn a bod Hysbysiad Gorfodaeth yn briodol yn yr amgylchiadau, byddwch yn derbyn Hysbysiad Gorfodaeth.

Ynghlwm wrth yr Hysbysiad hwn bydd amserlen yn nodi'r materion sydd, ym marn yr Awdurdod, yn golygu methiant i gydymffurfio â'r Gorchymyn.

Gallai'r amserlen hefyd nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i gywiro'r methiant(methiannau) er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r Gorchymyn.

Oni fydd y camau sydd yn amserlen yr hysbysiad yn cael eu cymryd erbyn y dyddiad a nodir, ystyrir nad ydych wedi cydymffurfio â'r Hysbysiad, a gallai'r Awdurdod ystyried eich erlyn. Serch hynny, gallech wneud cais am estyniad i'r amser.

**Hysbysiad Gwahardd**

Lle bo'r archwilydd yn ystyried bod defnyddio'r safle yn golygu, neu y bydd yn golygu, risg i bobl ar y safle os bydd tân, yn rhywbeth mor ddifrifol fel y dylid gwahardd neu gyfyngu ar ddefnyddio'r safle, yna gallai'r Awdurdod roi Hysbysiad Gwahardd. Gallai'r hysbysiad hwn wahardd ei ddefnyddio ar unwaith neu ar ôl amser penodol, a pheidio â chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio hyd oni fydd camau i gywiro wedi cael eu cymryd. Bydd yr hysbysiad yn esbonio pam fod angen y camau.

**Hysbysiad dan Erthygl 37 (Switsys Diffoddwyr Tân ar gyfer Arwyddion Tiwb Golau)**

Lle bo cyfarpar y mae'r erthygl hon yn ymwneud ag o wedi cael ei osod neu yn yr arfaeth yn neu ar y safle, gallai'r Awdurdod roi Hysbysiad gofynion i'r person cyfrifol, sy'n ymwneud â lleoliad, lliw a marciau'r swits diffodd.

**Gorfodaeth Gyfreithiol**

Bydd yr Awdurdod yn ystyried erlyn pan fo methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch tân a osodir gan y Gorchymyn, a bod y methiant wedi rhoi un neu ragor o bobl mewn perygl o farwolaeth neu anaf difrifol os bydd tân. Hefyd, os bu methiant i gydymffurfio ag unrhyw ofynion neu gyfyngiad a osodir gan hysbysiad a roddir dan y Gorchymyn, bydd erlyniad yn cael ei ystyried.

**Cosbau**

Mae methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch tân a osodir gan y Gorchymyn hwn neu ag unrhyw ofynion neu gyfyngiad a osodir gan hysbysiad a roddir dan y Gorchymyn hwn, yn drosedd dan Erthygl 32 o'r Gorchymyn. Bydd rhywun sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored

(a) ar gollfarn diannod, i ddirwy nad yw'r uwch na'r isafswm statudol; neu
(b) yn euog ar dditiad, i ddirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

Mae unrhyw berson a geir yn euog o drosedd dan unrhyw ofynion a osodir gan Erthygl 37 mewn perthynas ag arwyddion tiwb golau, yn agored ar gollfarn diannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Apeliadau**

Gall rhywun sy'n cael Hysbysiad Addasiadau, Hysbysiad Gorfodaeth, Hysbysiad Gwahardd neu Hysbysiad a roddir gan yr Awdurdod dan Erthygl 37 (switsys diffoddwyr tân ar gyfer

arwyddion tiwb golau) apelio o fewn 21 niwrnod i dderbyn yr Hysbysiad, trwy gwyno am orchymyn i lys ynadon.

**Cofrestr Gyhoeddus**

Dylech fod yn ymwybodol fod rhaid i'r awdurdod, er mwyn bodloni "Deddf yr Amgylchedd a Diogelwch 1988", roi manylion rhai hysbysiadau o'r enw "hysbysiadau perthnasol" (a nodir gan yr archwilydd sy'n rhoi'r hysbysiad), ar gofrestr y mae gan y cyhoedd fynediad ati. "Hysbysiadau perthnasol" yw'r rhai sy'n gosod gofynion neu amodau nad ydynt yn ymwneud yn unig â diogelu pobl yn y gwaith. Bydd y nodyn ar y gofrestr yn cael ei gadw am dair blynedd o leiaf.

Rhoddir nodyn ar y gofrestr o fewn 14 niwrnod wedi diwedd yr hawl i apelio neu gael gwared ar apêl yn erbyn cynnwys hysbysiad. Os bydd hysbysiad yn cael ei ganslo yn dilyn apêl, ni roddir y nodyn. Lle bo archwilydd yn fodlon y cydymffurfiwyd â hysbysiad, neu ei fod wedi ei dynnu'n ôl neu ei ddiwygio, rhoddir nodyn pellach ar y gofrestr o fewn 7 niwrnod er mwyn dangos hyn.
Os ydych yn tybio y bydd y nodyn am yr hysbysiad hwn yn datgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol, dylech roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod **o fewn 14 niwrnod**, a byddant hwy yn creu nodyn y maent yn ystyried nad yw'n datgelu'r wybodaeth ac yn rhoi hyn ichi. Yn y cyfamser, ni fydd y nodyn ond yn cynnwys eich enw, eich cyfeiriad, y lle dan sylw a'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol. Os nad ydych yn fodlon gyda'r nodyn newydd, mae gennych hawl pellach i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol **o fewn 14 niwrnod**.

**Gwybodaeth ar gael i'r Cyhoedd**

Dan y Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodaeth, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wneud gwybodaeth am ei gamau a'i benderfyniadau ar gael os gwneir cais ysgrifenedig, ac mae hynny'n cynnwys gwybodaeth am hysbysiadau y mae wedi eu rhoi. Yn gyffredinol, yr wybodaeth y bydd yr Awdurdod yn ei wneud ar gael am hysbysiad yw'r wybodaeth sydd ar y dudalen flaen.

Ni fydd gwybodaeth am hysbysiad ar gael hyd oni fydd yr hawl i apelio yn erbyn cynnwys hysbysiad wedi dod i ben heb i apêl gael ei chofnodi, neu wedi cael gwared ar yr apêl. Lle bo archwilydd yn fodlon y cydymffurfiwyd â hysbysiad, bydd yr wybodaeth hon ar gael ar yr un adeg â'r wybodaeth sydd ar y dudalen flaen. Os ydych yn tybio y byddai'r wybodaeth yn yr hysbysiad yn datgelu gwybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol, dylech gysylltu â'r Awdurdod **o fewn 14 niwrnod,** a byddant yn ail-ysgrifennu'r wybodaeth mewn ffordd y mae'n credu nad yw'n datgelu'r mater cyfrinachol. Yn y cyfamser, yr unig wybodaeth a fydd ar gael fydd eich enw, eich cyfeiriad, unrhyw le dan sylw a'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol. Os nad ydych yn fodlon gyda'r wybodaeth newydd, **nid** oes apêl pellach. Serch hynny, bydd yr Awdurdod yn gwneud pob ymdrech resymol i gytuno ar eiriau sy'n dderbyniol ichi.

Fel nad oes amheuaeth, lle bo gwneud hysbysiad yn gyhoeddus yn rhywbeth priodol er mwyn gwella diogelwch pobl, ni fydd y manylion yn y paragraff blaenorol ynglŷn â gwneud gwybodaeth am hysbysiad ar gael, yn berthnasol. Enghraifft o amgylchiadau lle gellid rhoi gwybodaeth ar yr adeg y bydd yr hysbysiad yn cael ei roi, yw pan fo'r hysbysiad yn

gwahardd defnyddio mannau cysgu. Gellai'r Awdurdod hysbysu tenantiaid neu bobl eraill sy'n defnyddio'r llety gwaharddedig hwn ar unwaith.

**Cwynion**

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y cafodd yr archwiliad ei gynnal, neu os ydych yn dymuno gwneud cwyn ynglŷn ag unrhyw agwedd ar yr archwiliad, dylech gysylltu â:

Y PRIF SWYDDOG TÂN
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ